

Shan Morgan
Yr Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Cardiff
CF10 3NQ

1 Mai 2018

Annwyl Ysgrifennydd Parhaol,

Craffu ar Gyfrifon 2016–17

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 28 Mawrth 2018, a oedd yn nodi'ch ymatebion i'r argymhellion a roddwyd i Lywodraeth Cymru yn yr adroddiad craffu ar gyfrifon 2016–17 gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor). Trafododd y Pwyllgor yr ymatebion, ynghyd â'r rhai a gafwyd gan sefydliadau eraill y gwnaeth argymhellion iddynt, yn ei gyfarfod ar 16 Ebrill 2018.

Mae'r Pwyllgor yn falch o nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, ar yr un pryd â'r cyfrifon, yn cyhoeddi tabl o staff sy'n ennill dros £ 100,000. Bydd hefyd yn ystyried sut y gallai'r datgeliadau ar gyfer ei chyllideb a'i halldro fel y'u nodir yn y crynodeb o alldro adnoddau yn ei chyfrifon fod yn fwy eglur ac yn fwy tryloyw [argymhellion 12 a 13 yn y drefn honno].

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth am yr adolygiad gan yr adran Archwilio Mewnol i ganfod a oes mesurau diogelwch digonol ar waith i atal twyll gan sefydliadau allanol sy'n derbyn cyllid Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae'n croesawu'ch cadarnhad y byddwch yn anfon diweddariad ynghylch canlyniadau'r adolygiad hwnnw ar ôl cyhoeddi cyfrifon 2017–18. Bydd hyn yn galluogi'r Aelodau



i ystyried y canfyddiadau cyn trafodaethau manwl y Pwyllgor ynghylch cyfrifon 2017–18 ym mis Medi.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu gwybodaeth am systemau rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru [argymhelliad 11] ac yn nodi'r ffaith mai'r bwriad yw cyflwyno'r dull gweithredu newydd o fis Gorffennaf 2018.

O ran argymhellion eraill y Pwyllgor, nododd yr Aelodau nad oedd yn eglur o'ch ymateb a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cymryd unrhyw gamau gweithredu. Rwyf wedi nodi gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r rhain yn y paragraffau canlynol.

Mae'r ddau argymhelliad cyntaf yn yr adroddiad Craffu ar Gyfrifon 2016–17 gan y Pwyllgor yn ymwneud â chyflwyno adroddiadau ar berfformiad gan Lywodraeth Cymru. Nododd yr Aelodau, fel rhan o'u gwaith craffu, nad oedd cyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17 yn nodi sut y mae'n perfformio yn erbyn ei thargedau na'i hamcanion, gan gynnwys y rhai a nodir yn ei rhaglen lywodraethu, sef Symud Cymru Ymlaen.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai gyflwyno adroddiadau am ei pherfformiad, y dylai egluro'r elfennau o ganllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi y mae'n anelu at gydymffurfio â hwy ynghylch cyflwyno adroddiadau am berfformiad, ac ar ôl gwneud hyn, y dylai wedyn gyhoeddi canllawiau cysylltiedig i'r cyrff y mae'n eu noddi [argymhellion 1 a 2].

Mae eich ymateb yn nodi y bydd adroddiadau ynghylch perfformiad yn y dyfodol yn croesgyfeirio at yr adroddiad newydd ynghylch llesiant cenedlaethau'r dyfodol, y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gyhoeddi am y tro cyntaf yr haf hwn. Rydych yn nodi, wrth baratoi'r cyfrifon, fod Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â gofynion llawlyfr adroddiadau ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi, yn ddarostyngedig i eithriadau nad ystyrir eu bod yn berthnasol. Rydych hefyd yn nodi bod



Llywodraeth Cymru yn fodlon cymryd camau yn dilyn unrhyw adborth ynglŷn â ffyrdd o gyflwyno'r wybodaeth yn ei chyfrifon yn well.

Mae'r Pwyllgor wedi croesawu'r cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf i wella fformat ei chyfrifon cyfunol. Fodd bynnag, dylai'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon (neu'r 'cyfrifon') a gyhoeddir alluogi'r darllenydd, boed yn ddinesydd, yn Aelod Cynulliad neu'n aelod o Fwrdd Llywodraeth Cymru, neu'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, i ddeall sut y caiff arian cyhoeddus ei wario a chwestiynu a gafodd ei wario'n ddoeth. Er mwyn bod yn dryloyw, dylai'r cyfrifon ddangos sut y mae'r arian wedi cael ei wario ar wasanaethau penodol a chanlyniad y gwariant.

O'r herwydd, barn y Pwyllgor yw y dylid cynnwys adroddiadau am berfformiad yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru ac na ddylai darllenydd orfod groesgyfeirio un neu fwy o ddogfennau eraill i gael y wybodaeth. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhannu'r farn hon.

Yn unol ag arfer gorau a'r gofyniad y mae'n ei roi ar ei gyrff a noddir, barn y Pwyllgor yw y dylai Llywodraeth Cymru, wrth baratoi ei hadroddiad am berfformiad i'w gynnwys yn y cyfrifon, gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Rhan 1 o lawlyfr adroddiadau ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi. Dylai hefyd geisio darparu canllawiau pellach i'r gyrff y mae'n eu noddi, y dylai hefyd gydymffurfio â hwy, os bydd yn credu bod angen adroddiadau ychwanegol mewn cyd-destun Cymreig. Mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd hyn yn cynnig cysondeb o ran adroddiadau am berfformiad ar draws gyrff llywodraeth ganolog yng Nghymru ac y bydd yn helpu'r broses graffu. Gallai Llywodraeth Cymru benderfynu nad oes angen iddi, na'r gyrff y mae'n eu noddi, gydymffurfio â rhai elfennau o ran 1 o lawlyfr adroddiadau ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r Pwyllgor yn gofyn ichi ei hysbysu os byddwch yn bwriadu gwyro oddi wrth y canllawiau a rhoi esboniad ynghylch pam nad yw'r datgeliadau yn cael eu hystyried yn berthnasol ar gyfer paratoi cyfrifon i gyrff cyhoeddus yng Nghymru.



Yn olaf, nododd y Pwyllgor fod eich ymateb yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â'i argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru ystyried dulliau gweithredu newydd mewn perthynas â pholisïau cronfeydd wrth gefn ar gyfer y cyrff y mae'n eu noddi. Mae hyn yn berthnasol o ystyried yr hyblygrwydd cynyddol sydd ar gael iddi yn sgil y Gronfa Wrth Gefn Cymru newydd ar gyfer 2018–19 a thu hwnt. Fodd bynnag, nododd yr Aelodau nad oedd hyn yn egluro a fyddai unrhyw gamau yn cael eu cymryd yng ngoleuni argymhelliad y Pwyllgor.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich sylwadau yng ngoleuni trafodaeth y Pwyllgor o'ch ymateb cychwynnol i'w argymhellion erbyn 1 Medi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Nick Ramsay". The signature is written in a cursive style with a long, sweeping underline.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd

